**Pwnc: Cefnogi ymgyrch genedlaethol ar gyfer eithriadau treth cyngor i ofalwyr maeth**

Annwyl [Enw'r Aelod o'r Senedd],

Ysgrifennaf atoch fel etholwr o [eich etholaeth] i ofyn i chi gefnogi ymgyrch Y Rhwydwaith Maethu i gyflwyno eithriadau treth cyngor i ofalwyr maeth.

*Gallwch gynnwys rhai pwyntiau ym mhrif adran eich e-bost:

- Mae gofalwyr maeth yn darparu rôl hanfodol i gymdeithas; maent yn darparu gofal o fewn cartrefi sefydlog a llawn cariad i fabanod, plant a phobl ifanc.
- Bydd darparu eithriadau treth cyngor iddynt yn dangos eu bod yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi, a bydd felly yn gwella o ran cadw gafael.
- Bydd yn cynyddu lleoliadau lleol, sy'n golygu na fydd yn rhaid i blant a phobl ifanc symud ymaith oddi wrth eu rhwydwaith cefnogi.
- Mae lwfansau a ffioedd yn dal yn annigonol i dalu cost lawn maethu, ynghyd â chostau byw hanfodol, ac felly bydd hyn yn rhoi rhyddhad ariannol.
- Mae lleoliadau maethu yn rhatach na lleoliadau gofal preswyl, ac felly mae'n creu arbedion cyfnod hir.
- Mae yna ar hyn o bryd 11 o fysg 22 (50%) o awdurdodau lleol yng Nghymru eisoes yn rhoi eithriadau/disgowntiau, ac mae 5 awdurdod lleol yn cynnig hyd at 100% o ostyngiadau. Dengys hyn ei fod yn bosibl, ond mae hefyd yn golygu bod yna anghysonderau i ofalwyr maeth sy'n byw gerllaw neu mewn awdurdodau lleol cyfagos.
- Amcangyfrifodd Y Rhwydwaith Maethu fod angen 400 yn fwy o ofalwyr maeth yng Nghymru, a chanfu ei arolwg Cyflwr y Cenhedloedd 2024 fod 21% o wasanaethau yn dweud mai cyllidau, yn cynnwys eithriadau treth cyngor, oedd y peth mwyaf effeithiol y maent yn ei wneud i gadw gafael ar ofalwyr maeth.
- Yn arolwg Cyflwr y Cenhedloedd 2024 Y Rhwydwaith Maethu, dywedodd 56% o ofalwyr maeth yng Nghymru eu bod wedi ystyried ymddiswyddo o faethu, gyda 26% yn enwi anawsterau ariannol fel ffactor cyfrannol.
- A fyddech cystal ag ychwanegu'r effaith y mae'r diffyg hwn o gymorth ariannol yn ei chael arnoch chi (os ydych yn ofalwr maeth) neu ar eich gallu i gadw gafael ar, a recriwtio gofalwyr maeth (os ydych yn wasanaeth), a sut y credwch y gall hyn newid os yw'r llywodraeth neu'ch awdurdod lleol yn eithrio gofalwyr maeth o dalu treth cyngor.

Felly, gofynnaf yn garedig ichi:

- Eiriol dros Ymrwymiad Cenedlaethol Maethu Cymru i gynnwys eithriad eglur i ofalwyr maeth o dreth cyngor i sicrhau cysondeb ledled Cymru.[1]

[1] https://fosterwales.gov.wales/fostering-allowances-and-support-in-wales/

- Siarad gyda'r awdurdodau lleol yn eich etholaeth a gofyn iddynt ystyried eithrio gofalwyr maeth o dreth cyngor.
- Codi'r mater yn y Senedd a chyda'r Dirprwy Weinidog dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd Meddwl ac Iechyd Menywod.

Byddai'r newid hyn nid yn unig yn ysgafnu'r baich ariannol ar ofalwyr maeth ond byddai hefyd yn helpu i recriwtio ac i gadw gafael ar fwy o ofalwyr maeth.

Diolch am eich amser a'ch ystyriaeth.  Edrychaf ymlaen at glywed eich barn a pha gamau y byddwch yn eu cymryd i gynorthwyo hyn.

Yr eiddoch yn gywir,